Beirniadu Eisteddfod Powys 2026

Cystadlaethau Dysgwyr Lefel Sylfaen

Sylfaen: Y Gwyliau Perffaith

Byd Hardd

Darn diddorol hollol wahanol sy'n cynnig profiad gwyliau arloesol i bobl sy'n gweithio gartref. Yn ôl yr awdur gall *Fy Mywyd Gorau* ail-greu eich bywyd arferol gan ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial cynhyrchiol.

Yn y bôn mae'r rhaglen yn cynnig gwyliau chwyldroadol, positif, heddychlon drwy greu dihangfa feddyliol heb ei hail, heb adael cartref o gwbl – syniad arbennig.

Defnydd da iawn o'r iaith i greu stori annisgwyl.

Da iawn Byd Hardd, a diolch am gymryd rhan yn y gystadleuaeth.

Tylluan Las

Rhaid dweud bod gwyliau ymddeol perffaith annisgwyl Tylluan Las wedi cydio ynof. Mae'n fy atgoffa o'r ffilm The Best exotic Marigold Hotel, er bod y darn hwn wedi'i leoli yng Ngwlad Thai.

Mae wedi'i ysgrifennu ar ffurf lythyr, ac mae'r iaith lafar yn llifo drwyddo'n naturiol - 'Ti'n gwybod bod …', yng nghefn lori bicyp!', 'Dan ni wrth ein bodd…' a.y.y.b.

Ac wedyn y syniad am aros yno, prynu bwthyn a dechrau gwersi Thai – gwych.

Da iawn Tylluan Las, a diolch am gymryd rhan yn y gystadleuaeth.

Grugwen

Darn diddorol am wyliau perffaith yn Nant Gwrtheyrn heb ddim byd i'w wneud heblaw siarad Cymraeg.

Yn ogystal â sôn am y gweithgareddau dosbarth a digwyddiadau eraill, mae'r awdur yn ddyfeisgar iawn wrth ddisgrifio pa effaith mae dysgu Cymraeg yn ei gael arni. Mae'n gwneud hyn drwy gymharu dysgu Cymraeg ag elfennau o'r tywydd – gwych.

Defnydd da o amserau'r ferf ac wedi treiglo'n dda.

Da iawn Grugwen, a diolch am gymryd rhan yn y gystadleuaeth.

Dw i wedi gosod **Tylluan Las yn gyntaf**, **Byd Hardd yn ail**, a **Grugwen yn drydydd**

Jaci Taylor

10/06/2026